**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Jenny Rathbone AS
Cadeirydd, Y Pwyllgor Cydraddoldeb a
Chyfiawnder Cymdeithasol

19 Mai 2023

Annwyl Jenny

Rwy'n ysgrifennu atoch mewn ymateb i'ch gohebiaeth ddyddiedig 28 Ebrill yn gofyn am eglurder ar nifer o faterion a nodwyd yn fy ymateb i'ch adroddiad terfynol.

Rwy'n ddiolchgar o hyd am y dull gweithredu dyfal ac ymroddedig rydych yn ei ddefnyddio yn ystod yr ymchwiliad hwn, gan gydnabod pa mor bwysig yw sicrhau bod menywod o Gymru sydd yn y system cyfiawnder troseddol yn gallu cael y cymorth sydd ei angen arnynt.

Gan ddiolch i'm partneriaid ym maes cyfiawnder am eu cyfraniadau, rwyf wedi darparu ymatebion i'r ymholiadau hyn isod.

**Argymhelliad 11:** Mae eich ymateb yn nodi y bydd Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF (HMPPS) yn bwrw ymlaen ag argymhellion yn sgil y peilot Adroddiad Cyn Dedfrydu diweddar. A fyddech cystal â rhoi rhagor o wybodaeth am ganlyniad y cynllun peilot hwnnw.

**Ymateb:** Daeth y cynllun peilot Adroddiadau Cyn Dedfrydu i ben ym mis Mawrth 2023. Bwriedir cyhoeddi Gwerthusiad Proses ffurfiol o'r cynllun peilot erbyn diwedd mis Mai 2023.

Ar ddiwedd y cyfnod gweithredol, mae'r ddau leoliad lle cynhaliwyd y cynllun peilot yng Nghymru wedi parhau i ddatblygu'r prosesau gwell a roddwyd ar waith dros y ddwy flynedd ddiwethaf, megis nodi'n gynnar yr achosion a fyddai'n elwa ar Adroddiad Cyn Dedfrydu yn unol â'r strategaeth weithredol genedlaethol ar gyfer llysoedd.

Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y canlyniadau yn ffurfiol ar ôl i'r adroddiad gael ei rannu â mi.

**Argymhelliad 12:** Rydym yn nodi y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF i sicrhau bod gwybodaeth am sut i gysylltu ag Aelodau etholedig yng Nghymru ar gael i fenywod o Gymru. A fyddech cystal â rhoi rhagor o fanylion am sut, a pha wybodaeth fydd ar gael i garcharorion.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jane.Hutt@llyw.cymru
Correspondence.Jane.Hutt@gov.wales

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb:** Mae Gwasanaeth Carchardai a Phrawf EF wrthi'n ystyried y ffordd orau o fynd i'r afael â'r argymhelliad hwn. Yn anffodus, nid oedd y Gwasanaeth yn gallu darparu ymateb mewn pryd imi ei gynnwys yn y llythyr hwn, ond mae hwn yn faes lle rydym yn parhau i bwysleisio pa mor bwysig yw gweithredu'n gyflym er mwyn sicrhau bod menywod o Gymru yn gallu cysylltu â'u Haelod o'r Senedd, ni waeth beth fo'u hamgylchiadau. Byddaf yn rhannu'r wybodaeth berthnasol ddiweddaraf â'r Pwyllgor cyn gynted ag y bo ar gael imi.

**Argymhelliad 15:** A fyddech cystal â darparu gwybodaeth ychwanegol am Fframwaith Adsefydlu Cymru. A allech hefyd egluro pwy sy'n gyfrifol am ariannu triniaeth ddadwenwyno i fenywod o Gymru sydd mewn carchar yn Lloegr.

**Ymateb:** Mae ein Fframwaith Haen 4, Rehab Cymru, a gafodd ei lansio ym mis Ebrill 2020, yn cynnig rhestr wedi'i chymeradwyo o ddarparwyr gwasanaethau adsefydlu preswyl. Mae modd hefyd weld y mathau o driniaeth, rhestr o brisiau, lleoliadau ac adolygiadau arolygu er mwyn helpu defnyddwyr gwasanaethau a gweithwyr proffesiynol i wneud dewis. Ar ôl i ddefnyddiwr y gwasanaeth a'r gweithiwr allweddol ddewis lleoliad, caiff y ffurflen atgyfeirio ar-lein ar Rehab Cymru ei chwblhau ac eir ati i drefnu'r lleoliad.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Rehab Cymru: Rehab Cymru

O ran ariannu gwasanaethau dadwenwyno i fenywod o Gymru sydd yn y carchar yn Lloegr, cyfrifoldeb NHS England yw unrhyw driniaeth a roddir mewn carchardai yn Lloegr. Pan gaiff menywod eu rhyddhau, mae awdurdodau lleol yn gyfrifol o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 am asesu a oes gan oedolyn angen a nodwyd am wasanaethau adsefydlu preswyl ar gyfer camddefnyddio sylweddau fel rhan o drefniadau gofal a chymorth lleol.

Mae'r rheoliadau ar bwy sy'n gymwys o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn cyfeirio'n benodol at yr angen sy'n deillio o ddibyniaeth ar alcohol a chyffuriau. Gall gwasanaethau adsefydlu preswyl a dadwenwyno i gleifion mewnol chwarae rôl bwysig o ran helpu defnyddwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau i sicrhau adferiad hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo o hyd i wneud yn siŵr bod gwasanaethau o'r fath ar gael. Wrth wneud hynny, rydym yn clustnodi cyllid blynyddol gwerth £2m o'r Gronfa Weithredu ar Gamddefnyddio Sylweddau yn benodol i Fyrddau Cynllunio Ardal ar gyfer darparu gwasanaethau Haen 4. Nod y cyllid hwn yw cefnogi cyllid awdurdodau lleol, ac ychwanegu ato, fel rhan o'u dyletswyddau i gynnal asesiadau o dan y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

Yn gywir



**Jane Hutt AS/MS**
**Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Prif Chwip**
**Minister for Social Justice and Chief Whip**